**CYFARFOD Y CYNGOR** a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 19eg Gorffennaf 2017 yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd Dinesig, Ffordd Wellington, y Rhyl yn dechrau am 6.00pm.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorydd A. R. James (Maer)

Y Cynghorwyr Ms. J. Hughes, A. S. Johnson, B. Jones, K. R. Jones, Mrs D. L. King, Ms J. L. McAlpine, Mrs W. M. Mullen-James, P. Prendergast, Ms V. Roberts a T. Thomas

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref

## 25. DECHRAU'R CYFARFOD

Dechreuodd Caplan y Maer, y Parchedig Andy Grimwood y cyfarfod trwy arwain pawb a oedd yn bresennol mewn gweddi.

Croesawodd y Maer y Parchedig Juliet Fraser i'r cyfarfod, a fyddai'n dirprwyo ar ran Caplan y Maer mewn cyfarfodydd i ddod.

## 26. YMDDIHEURIADAU

Dywedodd Clerc y Dref, ar ôl cais gan Aelod, na fyddai'r rheswm dros ymddiheuro yn cael ei gofnodi bellach yn y cofnodion.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb ar ran y Cynghorwyr J. Ball, B. Blakeley, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs E. M. Chard, Mrs J. Chamberlain-Jones, S. Harris, Miss E. L. Jones, B. Mellor, Miss C. L. Williams a Dirprwy Glerc y Dref Miss H. J. Windus.

## 27. LLIFOGYDD

Hysbysodd Clerc y Dref y cyfarfod o'r sefyllfa bresennol mewn perthynas â llifogydd eang a oedd wedi digwydd yn yr ardal, ac yn benodol y Rhyl y diwrnod hwnnw.

## 28. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd canlynol y Cyngor a'i Bwyllgorau i'w cymeradwyo fel cofnod cywir:

Y Cyngor - 21ain Mehefin 2017 - Rhifau Cofnod 14-24

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A. R. James ac eiliwyd gan y Cynghorydd P. Prendegast a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir.*

Pwyllgor Cynllunio - 21ain Mehefin 2017 - Rhifau Cofnod 4-6

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs W. Mullen-James ac eiliwyd gan y Cynghorydd Ms J. McAlpine a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir.*

Pwyllgor Cynllunio - 5ed Gorffennaf 2017 - Rhifau Cofnod 7-9

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs W. Mullen-James ac eiliwyd gan y Cynghorydd Ms J. McAlpine a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir.*

Cadarnhau neu fel arall:

Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol - 5ed Gorffennaf 2017 - Rhifau Cofnod 28-43

Cynigiwyd gan y Cynghorydd P. Prendegast ac eiliwyd gan y Cynghorydd J. L. McAlpine a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir a'u cadarnhau ar gyfer gweithredu.*

## 29. ADRODDIAD Y MAER

Cyfeiriodd y Maer at yr amrywiol ddigwyddiadau a fynychodd yn ystod y mis a aeth heibio.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad.*

## 30. CYFLWYNIAD: HEDDLU GOGLEDD CYMRU – TÎM PLISMONA LLEOL

Croesawodd y Maer yr Arolygydd Alwyn Williams a'r Sarsiant Steve Prince a'u gwahodd i roddi cyflwyniad i'r Cyngor ar nifer o faterion plismona lleol.

Cyn y cyflwyniad, mynegodd y Cynghorydd A. S. Johnson werthfawrogiad i'r Arolygydd mewn perthynas ag ymdrechion yr heddlu yn ardal Pen-y-Maes y dref ar ôl llifogyd heddiw.

Diolchodd yr Arolygydd Williams i'r Cyngor am y gwahoddiad i fynychu a dywedodd:

- Bod y Prif Arolygydd Mark Williams wedi ei benodi'n ddiweddar ar gyfer ardal y Rhyl.
- Ei fod wedi cyflwyno pum blaenoriaeth plismona newydd ar gyfer yr ardal, sef trais domestig, caethwasiaeth fodern, cam-drin rhywiol (yn enwedig plant), trosedd drefnedig a chyflenwi cymdogaethau diogelach.
- Mewn perthynas â'r lofruddiaeth yn ddiweddar yn Prince Edward Avenue, roedd hyn yn cynnwys dau grŵp o blant ac roedd dau berson 16 oed wedi eu cyhuddo o lofruddiaeth.
- Mewn perthynas â gorfodi car i stopio yn Ffordd Wellington, roedd hyn yn weithred a arweiniwyd gan wybodaeth mewn perthynas â phrynu arfau ac er gwaethaf adroddiadau yn y cyfryngau nid oedd yr arf wedi cael ei saethu.
- Roedd Operation Sceptre ar waith i leihau trosedd gyda chyllell a'r amnest cyllyll yn ddiweddar.
- Roedd y galw ar adnoddau'r heddlu yn Water Street wedi gostwng yn arwyddocaol yn rhannol oherwydd cyfarfodydd rheolaidd rhwng yr heddlu a swyddogion trwyddedu/gorfodi Cyngor Sir Ddinbych.
- Roedd 13 gorchymyn troseddol i leihau yfed ar y stryd wedi eu cyflwyno.

Wrth ymateb i gwestiynau'r aelodau, dywedodd y swyddogion:

- Bod dyfodol cyfarfodydd Partneriaeth Gorllewin y Rhyl yn cael ei arolygu i sicrhau ei fod yn effeithiol petai'n parhau.
- Er y derbyniwyd bod nifer o werthwyr cyffuriau ar y stryd yn gweithredu, roedd yr heddlu'n blaenoriaethu'r cyflenwyr ar ôl pryderon bod pobl ifanc yn cael eu cludo i'r ardal i werthu cyffuriau.

- Roedd tîm arbenigol wedi ei benodi i ddelio gydag Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod a chefnogwyd hyn gan hyfforddiant i swyddogion heddlu lleol a chydweithrediad Imamiaid lleol.
- Nid oedd parcio ar balmant yn drosedd onibai ei fod yn achosi rhwystr.
- Mewn perthynas â digwyddiadau hwyr y nos, yn enwedig o gwmpas mannau tacsis, roedd patrwm shifft y timau heddlu wedi ei newid i sicrhau gwasanaeth hyd at 3.00am ond ni ellid ymestyn hyn oherwydd yr angen i gael y swyddogion yn ôl ar ddyletswydd ar amser addas. Roeddent yn cydnabod y gallai'r digwyddiadau gael goblygiadau negyddol o ran y syniad o'r dref pan roedd buddsoddiadau mawr yn digwydd.
- Mewn perthynas â chamddefnyddio sgwteri symudedd nid oedd yr heddlu wedi derbyn cwynion.
- Lle'r oedd nifer fawr o wrthdrawiadau ffordd wedi digwydd mewn lle penodol byddai hyn yn arwain at asesiad yn cael ei wneud ar y darn honno o'r ffordd.
- Roedd ymarfer monitro cyflymder ar Ernest Street yn ddiweddar wedi cofnodi 23mya fel y cyflymder uchaf a dywedodd yr Arolygydd petai unrhyw aelod eisiau mynd gyda swyddogion ar ymarferion tebyg yn y dyfodol, gellid trefnu hyn.
- Byddai cyfarfod yn cael ei drefnu rhwng yr heddlu a chynrychiolwyr tacsis i drafod gweithio ar y cyd.
- Er bod nifer Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu wedi syrthio yn y Rhyl, nid oedd hyn oherwydd lleihau'r gyllideb ac roeddynt yn y broses o recriwtio rhai yn eu lle.

Ar ddiwedd y cyflwyniad, diolchodd y Maer i'r swyddogion am fynychu.

***PENDERFYNWYD*** *anfon llythyr at Gadeirydd Pwyllgor Trwyddedu Cyngor Sir Ddinbych i ofyn am arolwg o ofynion trwyddedu cyn agor cyfleusterau newydd yng nghanol y dref.*

## 31. AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR O GYFLENWYR CYMERADWY

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15fed Mawrth, ac yn unol â rheoliadau ariannol mabwysiedig y Cyngor, cyflwynodd Clerc y Dref Atodlen B (byddai rhestr o daliadau anrheolaidd yn cael ei rhyddhau dros y mis i ddod).

Roedd yr adroddiad hefyd yn nodi ychwanegiadau i'r rhestr o gyflenwr cymeradwy.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r canlynol i gael eu talu a'u llofnodi gan y Maer a'r Cynghorydd P. Prendergast.*

*(a) Taliadau Atodlen B i'w Cymeradwyo (14eg Mehefin 2017 – 12fed Gorffennaf 2017)*

| Enw Cyflenwr | Disgrifiad o'r Gwasanaethau a ddarparwyd | Rhif Taleb | Dull Talu | Swm £ |
|---|---|---|---|---|
| NW&MWATC | Cinio i 3 Cynrychiolydd mewn Cyfarfod ar 14eg Gorffennaf | 313 | Banc | 48.00 |
| Ambiwlans Sant Ioan | Cymorth Cyntaf ar gyfer Digwyddiad Seafest | 314 | Banc | 60.00 |
| Flying Colours Entertainment | Cerddwyr Stiltiau ar gyfer Digwyddiad Beatles Street | 315 | Banc | 744.00 |
| Gwasg Helygain | Taflenni ar gyfer Digwyddiad Seafest | 316 | Banc | 245.00 |
| Gwasg Helygain | Gwaith celfyddyd ar gyfer hysbyseb Digwyddiad Seafest | 317 | Banc | 24.00 |
| Gwasg Helygain | Taflenni ar gyfer Digwyddiad | 318 | Banc | 269.00 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Beatles Street | | | |
| Cyngor Sir Ddinbych | Ffioedd Partneriaeth Teledu Cylch Cyfyng 2017/18 | 319 | Banc | 15,000.00 |
| The Cavernites ( A G Mitchell) | Perfformiad yn Nigwyddiad Beatles Street 15 Gorffennaf 2017 | 320 | Banc | 950.00 |
| **Cyfanswm ar gyfer Atodlen B** | | | | **£17,340.00** |

(b) *Cymeradwywyd yr ychwanegiadau canlynol i'r rhestr o gyflenwyr cymeradwy:*

- Flying Colours Entertainment
- Cavernites (A G Mitchell)

**32. YMGYNGHORIAD: CYNGOR SIR DDINBYCH – GORCHYMYN (GARNETT AVENUE, FFYNNONGROEW A KINGSTON ROAD, Y RHYL) (GWAHARDD AROS, LLWYTHO A DADLWYTHO) 201**

Adroddodd Clerc y Dref iddo dderbyn yr uchod a dywedodd bod y cyfyngiadau arfaethedig yn ymwneud ag ysgwyddau'r cyffyrdd.

Nododd yr aelodau bod Maes Parcio West Kinmel Street yn agos ar gyfer pobl sy'n mynychu gwasanaethau eglwys.

Holodd Aelod a ellid ymestyn y cyfyngiadau ar hyd Fforddd Ffynnongroew wrth iddi ddod at gyffordd Ffordd Wellington. Fodd bynnag, nodwyd bod cyfyngiadau eisoes yn bodoli ond nad oeddynt yn cael eu gorfodi.

***PENDERFYNWYD*** *peidio â gwneud sylwadau ar y gorchymyn arfaethedig.*

**33. EITEM ER GWYBODAETH: HYSBYSFYRDDAU ARFAETHEDIG**

Gofynnodd Clerc y Dref i'r Aelodau hynny nad oeddynt eto wedi ymateb i'r cais am hysbysfyrddau i gysylltu â'r swyddfa i nodi eu dymuniad.

***PENDERFYNWYD*** *bod Clerc y Dref yn ail-anfon yr ebost at yr Aelodau.*

**34. EITEM ER GWYBODAETH: GWASANAETH AMBIWLANS**

Dywedodd Clerc y Dref bod yr wybodaeth ganlynol yn ymwneud â digwyddiad y y dref, ei fod yn bwriadu ysgrifennu at Wasanaeth Ambiwlans Cymru i ofyn am esboniad pam fod tacsi wedi ei anfon o Fangor mewn ymateb i alwad 999 i gludo person a oedd wedi ei anafu'n ddifrifol i Ysbyty Glan Clwyd.

Dywedodd Clerc y Dref y byddai copi o'r llythyr ac unrhyw ymateb a dderbyniwyd yn cael eu dosbarthu i'r Aelodau.

**35. HOLI AC ATEB**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

**36. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried yr eitemau busnes canlynol yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.*

**37. MENTER GYMDEITHASOL YMDDIRIEDOLAETH TIR CYMUNEDOL AR ABBEY STREET**

**[Datganodd y Cynghorydd Ms. J. Hughes ei buddiannau personol a rhagfarnus yn yr eitem ganlynol a gadawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth a'r pleidleisio]**

Cyflwynodd Clerc y Dref ei adroddiad cyfrinachol (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn ymwneud â chais am gymorth ariannol i siop gymunedol ar Abbey Street. Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r cais ac yn cynnwys cynnig ffurfiol a chynllun busnes gan y Bedford Street Community Company.

***PENDERFYNWYD*** *yn amodol ar yr amodau a nodwyd yn adroddiad Clerc y Dref, bod y Cyngor yn rhoi cymorth ariannol hyd at £10,000 tuag at y prosiect.*

**38. SEFYDLIAD: CYNNYDD COST BYW**

**[Datganodd Clerc y Dref ei fuddiannau personol a rhagfarnus yn yr eitem ganlynol a gadawodd y Simabr yn ystod y drafodaeth a'r pleidleisio.]**

Dywedodd y Maer bod darpariaeth wedi ei wneud ar gyfer y cynnydd yng nghyllideb y Cyngor a gymeradwywyd ym mis Ionawr 2017, ond dan Reoliadau Ariannol y Cyngor rhaid oedd cymeradwyo unrhyw gynnydd ar wahân gan y Cyngor ar ôl hysbysiad o gytundeb y dyfarniad cyflog blynyddol gan y Cyd-gyngor Cenedlaethol.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r cynnydd.*

**39. EITEM SEFYDLOG – GORCHMYNION CAU HEDDLU GOGLEDD CYMRU**

Ymhellach i gofnod rhif 79 cyfarfod a gynhaliwyd ar 3ydd Chwefror 2016, dywedodd Clerc y Dref nad oedd unrhyw geisiadau wedi eu derbyn gan Heddlu Gogledd Cymru.

**40. EGWYL MIS AWST – DIRPRWYO PWERAU GWEITHREDOL**

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Aelodau gymeradwyo trefniadau ar gyfer dirprwyo Pwerau Gweithredol i Glerc y Dref, mewn ymgynghoriad â'r Cadeiryddion priodol yn ystod egwyl mis Awst, fel a ganlyn:

Materion Dinesig - Maer a/neu Dirprwy Faer

Materion Cynllunio - Cadeirydd a/neu Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio

Pwyllgor CSG - Cadeirydd a/neu Is-gadeirydd y Pwyllgor CSG

Unrhyw Faterion Eraill Cadeirydd a/neu Is-gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a Chadeirydd a/neu Is-gadeirydd y Pwyllgor CSG

***PENDERFYNWYD*** *cadarnhau'r trefniadau*

**[Dywedodd Clerc y Dref bod yr eitem ganynol wedi ei rhoi iddo ar gyfer trafodaeth cyn i'r cyfarfod ddechrau]**

**41. EITEM YCHWANEGOL ER GWYBODAETH: CLIRIO AMGYLCHEDDOL**

Dywedodd aelod ei bod wedi dechrau adnabod draeniau wedi eu blocio, mannau lle'r oedd llawer o sbwriel ac ati yn ei ward, gyda golwg ar ofyn i Gyngor Sir Ddinbych ddelio â nhw ac yn wyneb llifogydd heddiw, meddyliai yr hoffai aelodau eraill wneud yr un peth yn eu wardiau nhw.

***PENDERFYNWYD*** *cydnabod y fenter.*

**42. TERFNU'R CYFARFOD**

Gan nad oedd unrhyw eitemau busnes pellach, dywedodd y Maer bod cyfarfod y Cyngor wedi dod i ben.

Maer:………………………..

Dyddiad: …………………………..